

This is an Open Access document downloaded from ORCA, Cardiff University's institutional repository:<https://orca.cardiff.ac.uk/id/eprint/148020/>

This is the author's version of a work that was submitted to / accepted for publication.

Citation for final published version:

Rees, Iwan Wyn 2022. Adolygiad o: Amrywiaith: Blas ar Dafodieithoedd Cymru (2020) gan Guto Rhys [Book Review]. *Journal of Celtic Linguistics* (23) , pp. 193-200.

Publishers page:

Please note:

Changes made as a result of publishing processes such as copy-editing, formatting and page numbers may not be reflected in this version. For the definitive version of this publication, please refer to the published source. You are advised to consult the publisher's version if you wish to cite this paper.

This version is being made available in accordance with publisher policies. See <http://orca.cf.ac.uk/policies.html> for usage policies. Copyright and moral rights for publications made available in ORCA are retained by the copyright holders.



Rhys, Guto, *AmrywIAITH: Blas ar Dafodieithoedd Cymru*. Llanrwst: Gwasg Carreg Gwalch, 2020. (Llyfrau Llafar Gwlad 94). ISBN 9781845277314. Pp. 99. £7.50.

Sut y gall academydd o Gymro sy'n byw yng Ngwlad Belg fynd ati'n feunyddiol ers 2015 i gasglu data ar nodweddion tafodieithol rif y gw lith o bob cwr o Gymru? Yr ateb yn achos Dr Guto Rhys yw drwy greu a chynnal tudalen neilltuol ar wefan Facebook, sef 'Iaith'. Y tudalen hwn felly yw'r corpws helaeth o ddata y mae creawdwr y grŵp 'Iaith' yn tynnu arno ar gyfer ei gyfrol *AmrywIAITH: Blas ar Dafodieithoedd Cymru* (rhif 94 yng nghyfres Llyfrau Llafar Gwlad Gwasg Carreg Gwalch).

Hawdd y gellid rhagfarnu na fyddai llawer o sylwedd mewn cyfrol sy'n seiliedig ar drafodaethau poblogaidd ar Facebook, ond mae'n dda gennyf allu dweud i Rhys wrthbrofi hynny'n gadarn yn yr astudiaeth hon. Wedi dweud hynny, nid pob awdur a fyddai wedi llwyddo i greu cyfrol ddiddorol a darllenadwy, i gynulleidfa boblogaidd ac academaidd fel ei gilydd, ar sail cannoedd o atebion ar Facebook (gan gofio bod modd i'r rheini fod yn ddigon ailadroddus ar brydiau a bod tuedd gan rai i grwydro oddi wrth y pwnc trafod dan sylw). Yn hynny o beth, mae Rhys yn haeddu pob clod am ei waith manwl yn dewis a dethol ac yn cymharu'r gwahanol atebion a gafwyd, yn ogystal ag am ei ymgais i ddehongli'n drefnus y data ieithyddol a ddaeth i law (yr hyn na wneir fel rheol yn y trafodaethau bywiog ar dudalen 'Iaith'). Hyn oll heb sôn am ei waith caib a rhaw cyson yn ysgogi trafodaethau ar nodweddion penodol yn y lle cyntaf wrth gwrs. Yn ddigamsyniol, mae'r rheini ohonom sy'n gwirioni ar amrywiadau llafar ac sy'n awyddus i ehangu ein gwybodaeth o ddatblygiadau cyfoes yn y tafodieithoedd Cymraeg yn dra dyledus i Rhys am ei lafur cariad (os nad llafur caled).

Beth yn union a geir yn *AmrywIAITH*, felly? Crynodebau (cryno ar y cyfan) o drafodaethau a gafwyd ar amrywiaeth o ffurfiau geirfaol (gan gynnwys gwahanol ynganiadau ohonynt) ac ymadroddion llafar yw addewid cyflwyniad y gyfrol. Cyflwynir yr eitemau a ddewiswyd yn nhrefn yr wyddor – o 'adain bobî' i 'ystreulio' – ac mae elfen gronolegol i'r detholiad hefyd gan mai trafodaethau cyntaf y tudalen 'Iaith' a grynhoir. Deallaf mai'r gobai th yw crynhoi trafodaethau diweddarach mewn cyfrol(au) eraill yn ddibynnol ar yr ymateb a geir i'r gyntaf.

Fodd bynnag, mewn gwirionedd, ceir yma lawer mwy na chrynodebau o sgysiau ar Facebook. Cyffredin, er enghraifft, yw'r cymariaethau a dynnir ag astudiaethau geirfaol cynharach, gyda'r clasuron *The Welsh Vocabulary of the Bangor District* (1913) gan O. H. Fynes-Clinton a *The Linguistic Geography of Wales* (1973) gan Alan R. Thomas yn cael lle blaenllaw drwyddi draw. Elfen arall sy'n cyfoethogi'r crynodebau yw'r dadansoddiadau o natur fwy ieithgol (neu 'ffilolegol' os mynner) – ar y wedd ddeiacronig hon y synhwyrir bod Rhys yn ei elfen neu, yn wir, ar ei fwyaf ysgolheigaidd. Mae'n amlwg oddi wrth y cyfeiriadau niferus at darddiadau damcaniaethol Celtig neu Indo-Ewropeaidd geiriau (neu elfennau ohonynt), y ffurfiau cytras amlwg a'r rhai mwy annisgwyl sydd mewn amrywiol ieithoedd, yn ogystal â'r gwahaniaethau semantegol diddorol a ddatblygodd o fewn ieithoedd a rhyngddynt, ein bod yng nghwmni ieithegydd dawnus sydd â chryn brofiad yn y maes.

I'r sawl nad yw'n gwirioni ar y math hwn o beth ac sy'n fwy tebygol o uniaethu â Kate Roberts pan aeth hithau, Frenhines ein Llên, ati unwaith i felltithio Syr John Morris-Jones am ei wersi Sansgrit arteithiol, rhaid prysuro i egluro nad yw ymdriniaethau Rhys â gwreiddiau a hanes geiriau yn rhy sych ar unrhyw gyfrif i'w treulio a bod dogn o hiwmor iach yn gydymaith cyson i'r amryfal ddoethinebau ieithgol. Diddorol iawn, er enghraifft, yw'r modd y cysyllta Rhys *carrot* â'r geiriau 'corn' a 'carw', yn ogystal â *rhinoceros* a *triceratops* hyd yn oed. Yn yr un modd, tynnir sylw at wreiddiau cyffredin 'cylion' (gwybed) a 'cala' (penis) drwy eu cysylltu â *culex* y Lladin. Cysylltiad annisgwyl arall yw hwnnw rhwng 'lle' a *lager* (y ddiod gadarn) a olrheinir yn ôl at y gwreiddyn Indo-Ewropeaidd **legh-* 'gorwedd'. Mae'r cyfatebiaethau hyn sy'n britho'r gyfrol wedi eu cyflwyno mewn modd sy'n addas i gynulleidfa boblogaidd, ond byddant yn amlwg o ddiddordeb i academyddion hefyd – a da gweld bod cyfeiriadau cyson at ffynonellau ieithgol awdurdodol at bwrpas y garfan olaf a fyn archwilio ymhellach. Dim ond un awgrym a fyddai gennyf o safbwynt yr elfen ieithgol: wrth drafod y gwreiddyn Indo-Ewropeaidd **leuk-* (neu **leug-* yn ôl rhai, er nad dyma'r lle i fanylu ar y ddadl ddyrys honno) sy'n berthnasol i nifer o eiriau Cymraeg cyffredin, e.e. 'amlwg', 'golwg', 'golau' a 'lleuad', heb anghofio am 'llygad' wrth gwrs (y gair dan sylw yn y gyfrol; tt. 63–5), gellid bod wedi cyfeirio at y Duw Celtaidd 'Lleu' a'r modd y bu i hwnnw aros ynghudd bron mewn enwau lleoedd mor ymddangosiadol anghymharus â Dinas Dinlle (< Dinlleu) a Lyon yn Ffrainc (< *Lugdunum* y

Rhufeiniaid neu **Lugudunon* y Galiaid). Dim ond rhyw damaid bach blasus arall y gellid bod wedi achub ar y cyfle i'w grybwyll fyddai hynny wrth gwrs.

Sut fath o astudiaeth sydd yn y gyfrol hon, felly? O ystyried y dadansoddiadau ieithegol a grybwyllwyd uchod, efallai y barnai rhai nad yw hynny'n gydnaws â honiad Rhys o'r dechrau'n deg '[...] nad astudiaeth ysgolheigaidd, ddwys a dibynadwy sydd yma ond casgliad o anecdotau' (t. 19). Ai teg hyn, ynteu a oes gormod o wyleidd-dra yma o du'r awdur? Yn amlwg, mae mwy nag anecdotau i'r gyfrol fel y nodwyd eisoes; ceir hefyd ddadansoddiadau o natur ddeiacronig a synchronig. Wedi dweud hynny, mae penderfyniad yr awdur i droedio'n ofalus gan leoli ei astudiaeth yn agosach i'r pegwn 'poblogaidd' na'r un 'academaidd' yn synhwyrol yn fy marn i, yn enwedig yng nghyd-destun astudiaethau sosioieithyddol o amrywiadau tafodieithol cyfoes. Fel y manyla Rhys, 'Nid oes modd gwirio'r hyn a ddywed y cyfranwyr [...]' (t. 12).

Yn y cyswllt hwn, mae'n werth ystyried ambell sylw a wna Alan R. Thomas yn *The Linguistic Geography of Wales*, y clasur hwnnw a ddisgrifiwyd gan Beth Thomas fel '[B]eibl i bob tafodieithegydd a fu'n gweithio ar y Gymraeg oddi ar [ei gyhoeddi]' (2000: 409) ac a fu'n ysbrydoliaeth amlwg i Rhys. Cymerer y canlynol, er enghraifft: '[...] the exigencies of time and cost made it necessary to concentrate on variation in the conversational style of one generation. Consequently[,] the informants for this survey are representative only of the oldest generation' (Thomas 1973: ix). Mae'n debyg nad pawb ymhlith cyfoeswyr Alan R. Thomas a gefnogai'r syniad o arolwg cenedlaethol o'r tafodieithoedd Cymraeg heb gyllid nac adnoddau digonol. Bodloni ar yr amherffaith a wnaethpwyd yn y diwedd, a bwrw ati gyda'r prosiect drwy anfon holiaduron drwy'r post at gysylltwyr lleol mewn ardaloedd ledled Cymru (dull sydd heb ei anfanteision). Er hynny, mae'n amlwg oddi wrth y dyfyniad i awdur y 'Beibl' tafodieithegol ymboeni am gynrychioliadwyedd ei samplau a dilysrwydd ei ddata; wedi'r cyfan, diffygion yn y meysydd hynny a barodd i sosioieithyddion oddi ar y 1960au fod yn llawdrwm eu beirniadaeth o dafodieithegwyr traddodiadol a ddibynnai'n ormodol ar yr hyn a elwir bellach yn *NORMS (non-mobile older rural males)* (gw. Chambers a Trudgill 1998: 29–30). Y gwir amdani felly yw na fu erioed unrhyw arolwg cenedlaethol cynhwysfawr neu gwbl gadarn ei fethodoleg o safbwynt amrywiadau tafodieithol y Gymraeg. Bid a fo am hynny, ychydig a anghytunai heddiw â chasgliad Beth Thomas (2000: 414) wrth iddi gloriannu llwyddiant *The Linguistic Geography of*

Wales: ‘Llwyddodd yr astudiaeth hon oherwydd iddi ddiffinio tasg a oedd yn ymarferol bosibl, sef bodloni ar gyfyngu ar hyd a chynnwys yr holiadur [...]’ Yn y cyd-destun hwnnw felly y dylid pwysu a mesur gwerth cyfrol Rhys; hyd y gwelaf i, mae unrhyw ymgais i ddiweddarau’n gwybodaeth o batrymau tafodieithol cyfoes, ’waeth pa mor fylchog y bo’r data neu ba mor niferus y bo’r brychau methodolegol, yn werthfawr ac yn rhoi inni sylfaen gadarnach i gyflawni astudiaethau manylach, gan gynnwys gwaith sosioieithyddol â samplau mwy cynrychioliadol o siaradwyr o safbwynt oedran, rhywedd, cefndir ieithyddol a dosbarth cymdeithasol, er enghraifft.

Gan fod cyflwyniad Rhys fel petai’n ein gwahodd i ystyried effaith ei fethodoleg ar y data ieithyddol a gesglir, gobeithio y maddeuir imi am achub ar y cyfle hwn i ymhelaethu ar rai ystyriaethau neu heriau methodolegol sy’n codi yn achos y grŵp ‘Iaith’. Yn gyntaf, eglura’r awdur yng nghyflwyniad ei gyfrol mai dethol ffurfiau penodol ‘o ryw astudiaeth gyhoeddedig’ (t. 12) yw man cychwyn y trafodaethau fel rheol, o leiaf pan y’u hysgogir ganddo ef. Mae’n ddigon posib felly y gallai’r atebion fod yn llai niferus (os nad yn llai cyfoethog) pe na byddai Rhys yn y lle cyntaf wedi nodi un o’r geiriau traddodiadol sy’n codi yn un o’r cyfryw gyhoeddiadau (ymddengys mai gweithiau Fynes-Clinton (1913) ac Alan R. Thomas (1973) a grybwyllwyd eisoes, yn ogystal ag *A Glossary of the Demetian Dialect of North Pembrokeshire* gan Meredith Morris (1910), yw’r ffefrynnau ganddo). Y cwestiwn a gyfyd yma felly yw hwn: i ba raddau y mae awydd ambell gyfrannwr i briodoli ambell air neu ymadrodd i’w ardal ei hun (neu fro ei fagwraeth) yn brawf pendant o ddefnydd gweithredol ohonynt? Onid yw’n debygol mewn ambell achos mai gwybodaeth oddefol sydd yma, e.e. cof plentyn am ffurfiau a arferai fod yn gyffredin (ymhlith cenedlaethau hŷn bryd hynny efallai) ond a all bellach gael eu hawlio gan siaradwyr heddiw cyn iddynt gael eu bwrw i ebargofiant? A bod yn deg, mae fel petai’r awdur yn llwyr ymwybodol o’r posibiliad hwn ac o natur ‘anecdotaidd’ y dystiolaeth a geir, ac mae’n iawn i dynnu sylw at y ffaith fod y data crai ar gael ar Facebook i’r sawl a fyn ragor o fanylion neu sy’n awyddus i ymchwilio ymhellach i nodwedd benodol.

Ystyriaeth arall yw cefndir y cyfranwyr. Ceir rhestr gyflawn o 850 o siaradwyr Cymraeg sy’n sail i ganfyddiadau’r gyfrol hon a nodir lleoliad ar gyfer y rhan fwyaf ohonynt, e.e. Trawsfynydd, Dyffryn Conwy a Meirionnydd. Gresyn ar brydiau nad yw oedrannau’r cyfranwyr yn hysbys gan y gallai hynny daflu goleuni gwerthfawr ar newidiadau dros amser. Nid

wyf yn gwbl argyhoeddedig fod yr honiad mai '[y] brif ffurf yn y Gogledd erbyn hyn yw glöyn byw' (t. 31) yn ddilys – tua 10 mlynedd yn ôl bellach, awgrymodd y rhaglen 'Ar Lafar' (Cwmni Da) a gyflwynwyd gan Ifor ap Glyn ar sail canlyniadau i holiadur mai 'pili pala' a oedd fwyaf cyffredin ymysg siaradwyr iau y gogledd a'r de-orllewin (fel y cydnebydd Rhys) ond bod nifer o siaradwyr canol oed a rhai hŷn o'r gogledd hefyd yn arfer y ffurf honno bellach. Yn sicr, gall rhagfarn rhai gogleddwyr balch tuag at un o ffurfiau traddodiadol y Wenhwyseg, fel y dadlennwyd gan rai o'r sylwadau a gafwyd ar dudalen 'Iaith' ond nas cynhwysir yn y gyfrol hon ysywaeth, egluro'n rhannol pam y byddai defnyddwyr 'glöyn byw' yn uwch eu cloch.

Anfantais arall (yn fy marn i) yw bod yr enwau lleoedd a nodir gan y cyfranwyr yn amrywio'n sylweddol yn ôl maint; rhwng trefi, rhanbarthau a siroedd (fel y gwelir uchod). Ar brydiau yn y crynodebau, gall hyn roi'r argraff o wahaniaethau yn nosbarthiad daearyddol gwahanol ffurfiau, ond mewn gwirionedd, adlewyrchu mympwy disgrifiadau'r cyfranwyr y mae. Cymerer, er enghraifft, y gymhariaeth a dynnir rhwng 'gorweddian' yn 'y gogledd-orllewin' a 'gorfeddian' yn 'Eryri'. Fel un sy'n gyfarwydd â 'gorfeddian' yn ardal Harlech, mae'n amheus gennyf pa mor ddilys yw'r gwahaniaeth ymddangosiadol hwn. Ambell waith hefyd, rhoddir yr argraff o wahaniaethau absoliwt rhwng ardaloedd cyffiniol neu ddiffyg amrywio o fewn ardaloedd penodol, ond mae'n bosib iawn mai prinder data sy'n gyfrifol am hynny yn hytrach nag unrhyw realiti ieithyddol. Nodir, er enghraifft, mai 'moran' a geir yn Llŷn, tra ceir 'moran' yn Eifionydd; fodd bynnag, gan fod yr awdur wedi priodoli'r ymadrodd 'torri fel moran' i Llŷn, mae'n amlwg nad yw'r ffurf hon yn gyfyngedig i Eifionydd.

Hefyd o safbwynt enwau'r ardaloedd, efallai y gellid bod wedi pwysleisio mai bro magwraeth yw'r hyn a nodir gan nifer o'r cyfranwyr, nid yr ardaloedd y maent yn byw ynddynt heddiw o angenrheidrwydd (ers rhai degawdau yn achos rhai). Unwaith eto, cyfyd hyn gwestiynau diddorol, ac er na fyddwn am ddadlau ar unrhyw gyfrif fod preswylfeydd presennol (Caerdydd yn fy achos innau, er enghraifft) yn effeithio'n fwy ar ein patrymau llafar na bröydd ein mebyd, rhaid ystyried y posibilrwydd y gall ymagweddau pobl tuag at eu hardaloedd gwreiddiol fod yn rhamantus-hiraethus, bod modd i rai ffurfiau ffosileiddio (yn enwedig yn achos Cymry alltud) ac nad oes gan y cyfryw siaradwyr ymwybyddiaeth lawn o'r newidiadau sydd wedi digwydd neu sydd ar waith yn eu hen gynefinoedd.

Synnais, er enghraifft, o ddarllen yr honiad bod ‘*llysie coch* yn hysbys o ogledd Ceredigion i Drawsfynydd ond [yn] ildio’n gyflym i *moron*’. Ar sail fy ngwaith maes innau yn ardal Harlech yn 2009, rhai o’r genhedlaeth hŷn yn unig a ddefnyddiai ‘llysa coch(ion)’ (nid ‘llysiâu’ sylwer), ynghyd â ‘llysyn coch’ ar gyfer yr unigol, ond ildio i ‘carots’ a ‘carot(yn/-san)’ a wnaent yn bennaf ymhlith siaradwyr canol-oed ac iau yr ardal (er bod ‘moron’ gan rai o’r siaradwyr iau hefyd). Yn Nhywyn a’r cyffiniau wedyn, fe’m trawyd pa mor gyson y codai ‘moron’ a’r unigol ‘moryn’ gan genhedlaeth hŷn yr ardal hon, ac ni chefais yno yr un enghraifft o ‘llysa coch(ion)’ na’r ‘llysyn’ unigol. Nid argraff o safoni cyflym a gefais felly, ond gallaf ddeall sut y gallai cymysgedd o ideoleg iaith safonol ac awydd i gadw hen ffurfiau’n fyw roi’r argraff o hynny mewn ambell achos. Diddorol yn y cyswllt hwn yw sylw un dyn bach o Dregaron: ‘dim ond *strawberries* glywais i erioed’. Cawn yr argraff ei fod yn y lleiafrif, ond tybed a yw’r cyfraniad hwn yn fwy cynrychioliadol o iaith sawl carfan mewn sawl ardal o Gymru bellach ond na fyddai nifer o gyfranwyr eraill ‘Iaith’ am gyfaddef hynny?

Dyna ddigon o ystyriaethau methodolegol i’r dydd – a rhaid cydnabod bod nifer o’r cwestiynau sy’n codi lawn mor berthnasol i gyfweliadau wyneb-yn-wyneb ag ydynt i atebion ar Facebook. Rhaid troi’n olaf at rai o ragoriaethau’r gyfrol er mwyn gwneud cyfiawnder â’r gwaith. I mi, un o’r uchafbwyntiau oedd helaethrwydd y priod-ddulliau a’r dywediadau a nodwyd yn achos sawl gair, e.e. ‘llwynog’, ‘llygad’ a ‘glaw’ (nid yw’r olaf yn syndod yng Nghymru efallai!). Diau y bydd y rhain o ddiddordeb mawr i gynulleidfa eang (siaradwyr rhugl a dysgwyr fel ei gilydd). Mae’n werth nodi er hynny na nodwyd ambell idiom digon cyffredin yn achos ambell air, e.e. ‘torri cwys ei hun’ yn achos y drafodaeth ar ‘cwys’, ‘trychfil’ / ‘hen drychfil bach’ yn achos ‘plant drwg’ na ‘dangos ei (g)orchest’ neu ‘mae rhyw orchest arno/-i’ yn achos *showing off*. Diddorol fyddai archwilio dosbarthiad daearyddol yr ymadroddion hynny eto (os na wnaed eisoes).

Er gwaethaf hyd a lled dibynadwyedd pob math o dystiolaeth anecdotaidd, mae’n rhaid imi gyfaddef fod yr hanesion personol a’r dyfyniadau lliwgar sy’n britho’r gyfrol ymhlith un arall o ragoriaethau’r gwaith yn fy nhyb i. Gogleisiol, er enghraifft, yw’r cerydd a gafodd un o Gwm Gwendraeth gan ei rhieni am ddweud ‘lawr y tyle’ yn hytrach na ‘lawr y gwired (gwaered)’ – er bod ‘lan y tyle’ yn hollol dderbyniol ganddynt). Stori ddoniol arall yw honno am y modd y bedyddiwyd un ast yn ‘Nel’: heb ddifetha’r hanesyn hwnnw

i'r darllenydd, y cyfan a ddywedaf yma yw bod '*****n 'el' yn enghraifft gofiadwy o gamraniad ar ei orau (hyd yn oed os yw braidd yn anllad neu'n ddi-chwaeth gan rai).

Clodwiw hefyd yw sylw manwl yr awdur i wahanol ynganiadau ar eiriau unigol – nid oes dwywaith na chaiff darllenwyr fodd i fyw o gymharu'r amrywiaeth rhyfeddol o ffurfiau deheuol ar 'arllwys', er enghraifft, neu wrth bori drwy'r ffurfiau sy'n arddangos trawsosod yn achos 'cenllysg'.

Elfen arall sy'n haeddu clod yw penderfyniad Rhys i fynd y tu hwnt i eiriau ac ymadroddion ar brydiau drwy holi ynghylch ambell nodwedd ramadegol. Mwynheais, er enghraifft, y trafodaethau ar yr amrywio sydd ar waith (neu a geid) yng nghenedl enwau megis 'breuddwyd', 'cwch', 'trên' a 'llygad' – a diddorol hefyd yw'r awgrym yn achos y ffurf ddiwethaf y gallasai newid o enw gwrywaidd i un benywaidd fod yn gysylltiedig â harddwch (cyfraniad gwerthfawr i'r ddadl gymhleth ar berthynas enwau benywaidd â benywaidd-dra yn sicr, ond nid dyma'r lle i ddilyn y trywydd hwnnw). Da hefyd yw'r dadansoddiad clir a geir o forffoleg rhai berfau, e.e. y gwahaniaeth rhwng y ffurfiau gorchmynnol 'gollwng', 'gwll' a 'gill' a'r rhesymau drostynt. Ni allaf ond gobeithio y daw'r ymdriniaethau uchod ag amrywio gramadegol mewn Cymraeg llafar i sylw athrawon Cymraeg ac yn benodol y sawl sy'n gyfrifol am feysydd llafur ac asesiadau'r pwnc yn CBAC – yn sicr, mae tuedd amlwg wedi bod hyd yma i roi'r argraff i ddisgyblion ysgol fod gramadeg yn gyfystyr â chonfensiynau'r iaith safonol yn unig a chan hynny i esgeuluso amrywiaeth y tafodieithoedd Cymraeg fel maes astudio yn ei hawl ei hun.

Mae'n amlwg mai codi cwr y llen ar gyfoeth y Gymraeg a'i threftadaeth dafodieithol ryfeddol oedd bwriad Rhys yn y gyfrol hon, ac o safbwynt y llinyn mesur hwnnw, nid oes rhithyn o amheuaeth gennyf nad yw wedi llwyddo'n gampus. Yn sicr, mae yma ddigonedd o wybodaeth ddiddorol a chanfyddiadau newydd i gnoi cil arnynt. Fel un o ddarlithwyr adrannau Cymraeg prifysgolion Cymru, ni allaf lai na gobeithio y bydd y gyfrol hon yn ennyn chwilfrydedd llu o ddisgyblion ysgol yn eu hiaith lafar eu hunain a chan hynny'n annog rhagor ohonynt i astudio'r Gymraeg a'i thafodieithog yn y brifysgol. Ys dywed Rhys ei hun, 'Erys gwaith mawr i'w wneud ar dafodieithoedd Cymru'.

Iwan Wyn Rees
Prifysgol Caerdydd

Cyfeiriadau

Chambers, J. K. a Trudgill, P. (1998). *Dialectology*. Cambridge: Cambridge University Press.

Thomas, A. R. (1973). *The Linguistic Geography of Wales: A Contribution to Welsh Dialectology*. Cardiff: University of Wales Press.

Thomas, B. (2000). Golud y Gorffennol? Cofnodi'r Tafodieithoedd. Yn: G. Jenkins a M. Williams (goln), *Eu Hiaith a Gadwant? Y Gymraeg yn yr Ugeinfed Ganrif*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 405–20.